



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Cylchlythyr Gwanwyn 2024 Spring Newsletter 2024



Gwanwyn 2024

Croeso cynnes i gylchlythyr chwarterol Comisiynydd y Gymraeg. Gobeithio y byddwch yn mwynhau ei ddarllen ac mae croeso i chi ei rannu gyda chydweithwyr a chyfeillion.

Cyd-reoleiddio i gyrraedd y nod

Un o gyfrifoldebau pwysicaf y Comisiynydd yw rheoleiddio'r cyrff hynny sydd yn dod o dan Safonau'r Gymraeg. Mae nifer o ffyrdd o wneud hynny ac ar ddechrau'r flwyddyn aethom ati i gasglu barn ac adborth gan sefydliadau ar ein gwaith rheoleiddio.

Y nod oedd deall yn well pa agweddau o'n gwaith sydd fwyaf gwerthfawr iddynt, a pha weithgareddau yr hofffen nhw weld mwy ohonynt.

Yn dilyn hynny, cynhaliwyd sesiynau rhithiol â sefydliadau sy'n gweithredu safonau a chynlluniau iaith Gymraeg. Daeth dros 160 o gynrychiolwyr at ei gilydd ac roedd yn gyfle i rannu gwybodaeth am yr adborth a dderbyniwyd a'r camau nesaf.

Mae'r Cyfarwyddwr Rheoleiddio a'r Dirprwy Gomisiynydd, Osian Llywelyn wedi cyhoeddi blog a recordio podlediad arbennig lle mae'n amlinellu'r ffordd ry'n ni am ddatblygu ein gwaith rheoleiddio.



[Gallwch ddarllen a chlywed mwy fan hyn.](#)

Spring 2024

A warm welcome to the Welsh Language Commissioner's quarterly newsletter. I hope you enjoy reading it and feel free to share it with colleagues and friends.

Achieving our goal through co-regulation

One of the Commissioner's main responsibilities is to regulate those organisations that come under the Welsh Language Standards. There are several ways to develop this regulatory work, and at the beginning of the year we set out to gather opinions and feedback from organisations.

The aim was to better understand which aspects of our work are most valuable to them, and what activities they would like to see more of.

Subsequently, virtual sessions were held with organisations implementing Welsh language standards and schemes. With over 160 delegates in attendance it was an opportunity to share information about the feedback received and the proposed next steps.

Director of Regulation and Deputy Commissioner, Osian Llywelyn has recorded a podcast in which he outlines the approach we are taking to develop our regulatory work.



[Listen to the podcast and read Osian's blog.](#)



Yr Iaith ar Daith

Daeth dros 200 o gynrychiolwyr sefydliadau cyhoeddus i gyfres o ddigwyddiadau undydd ar draws Cymru a drefnwyd mewn partneriaeth â'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol. Y nod oedd trafod sut gall sefydliadau cyhoeddus greu cynnwys dwyieithog a hyrwyddo'r gwasanaethau hynny i'w defnyddwyr yn well.

Un o'r elfennau a drafodwyd yn y digwyddiad oedd **ysgrifennu triawd** ac fe wnaethom gynhyrchu ffilm newydd gyda'r Ganolfan a Chyfoeth Naturiol Cymru yn dangos hyn ar waith.

[Gallwch ddarllen mwy a gwyllo'r ffilm fan hyn.](#)

Language Matters

Over 200 representatives from public organisations attended a series of one-day events across Wales in partnership with the Centre for Digital Public Services. The main aim was to discuss how organisations can create bilingual content and better promote those services to their users.

One of the elements discussed at the event was **trio writing**. We produced a new film with the Centre and Natural Resources Wales highlighting how trio writing works in practice.

[Watch the film and get more information about trio writing.](#)

Cynnig Cymraeg yn cyrraedd y 100

Mae Aldi, un o archfarchnadoedd amlycaf Cymru wedi ei chydabod am ei hymrwymiad i gyflwyno'r Gymraeg ym mhob un o'i siopau ledled Cymru. Dyma hefyd y canfed sefydliad i dderbyn y Cynnig Cymraeg ers i'r rhaglen gychwyn. Mae Aldi wedi buddsoddi i sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed mewn dros 50 o siopau yng Nghymru.

Lansiwyd y cynllun ym mis Mehefin 2020, ac yn ogystal â'r rhai sydd wedi derbyn y Cynnig Cymraeg eisoes, mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithio gyda thros gant o sefydliadau eraill ar ddatblygu eu cynlluniau.

[Gallwch ddarllen mwy fan hyn.](#)



'Cynnig Cymraeg' reaches the century

Aldi, one of the most prominent supermarkets in Wales, has been recognised for its commitment to introducing the Welsh language in all of its stores across Wales. This is also the hundredth organisation to receive the 'Cynnig Cymraeg' (Welsh Offer) since the scheme started. Aldi has invested in ensuring that the Welsh language is seen and heard in over 50 stores in Wales.

The scheme was launched in June 2020, and in addition to those who have already received the Cynnig Cymraeg, the Commissioner is working with over one hundred other organisations to develop their plans.

[Read more about the Cynnig Cymraeg.](#)



Cynllun cydraddoldeb

Rydym wedi cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer y cyfnod 2024-28. Mae'r Cynllun yn cynnwys amcanion cydraddoldeb sydd yn adeiladu ar yr amcanion a'r camau oedd eisoes wedi'u cymryd o fewn Cynllun 2020-2024 ac yn hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig perthnasol a phobl nad ydynt yn eu rhannu.

Mae'r amcanion cydraddoldeb wedi'u rhannu i bedwar thema sy'n canolbwyntio ar y gweithlu, y gymuned, ein ffordd o weithio ac anghenion unigol.

Darllenwch ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28](#) er mwyn dysgu mwy am yr amcanion a'r camau gweithredu fydd yn cael eu cymryd i'w cyflawni.

Equality plan

We have published a new Strategic Equality Plan for the period 2024-28. The Plan includes equality objectives which build on the objectives and steps already taken within the 2020-2024 Plan, promote equal opportunities and foster good relationships between people who share a relevant protected characteristic and those who do not.

The equality objectives are divided into four themes which focus on the workforce, the community, our way of working and individual needs.

Read our [Strategic Equality Plan 2024-28](#) to learn more about the objectives and the actions that will be taken to achieve them.



Teithio ar draws y gogledd

Wrth fynd ar ymweliadau yng ngogledd Cymru yn ddiweddar cafodd Efa Gruffudd Jones, Comisiynydd y Gymraeg gyfle i gyfarfod â rhai sefydliadau sydd yn hybu'r iaith ac yn cynnig gwasanaethau hollbwysig drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ym Mhrifysgol Wrecsam cafodd gyfle i weld yr adnoddau iechyd newydd a chwrdd â myfyrwyr Cymraeg yr Adran Iechyd Perthynol i ddangos sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio o fewn y cwricwlwm ac yn cefnogi anghenion y sector gyhoeddus a'r gweithlu.

Yna bu tîm y Samariaid ym Mangor yn amlinellu pwysigrwydd cynyddol y gwasanaeth Cymraeg i'r rhai sydd yn cysylltu â nhw. Wrth i Antur Waunfawr baratoi ar gyfer penblwydd arbennig cafodd Efa glywed am gyfraniad pwysig yr elusen i'w hardal dros y deugain mlynedd diwethaf.

Diolch yn fawr am y croeso.

Visits in north Wales

While visiting north Wales recently, Efa Gruffudd Jones, Welsh Language Commissioner had the opportunity to meet with some organisations that promote the language and offer vital services through the medium of Welsh.

During her visit to Wrexham University, she had the opportunity to see the new health resources and meet Welsh students from the Allied Health Department to show how the Welsh language is used within the curriculum and supports the needs of the public sector and the workforce.

The Samaritans' team in Bangor outlined the increasing importance of Welsh language services to those who contact them. As Antur Waunfawr prepared for a special birthday, Efa heard about the charity's valuable contribution to the area over the past forty years.

Diolch yn fawr iawn am y croeso!
Thanks for the welcome!



Iaith Gwaith – y bathodyn bach pwysig

Cymraeg

Mae'r bathodyn Iaith Gwaith wedi hen ennill ei blwyf – mae i'w weld ymhobman ac yn gyfle i bobl ddangos eu bod yn siarad Cymraeg a bod croeso i eraill siarad Cymraeg â nhw, boed hynny yn y siop, yn yr ysbyty neu yn y ganolfan hamdden.

Mae'r niferoedd sydd yn ymweld â'n gwefan ac yn derbyn nwyddau gennym wedi cynyddu. Ond wydddech chi hefyd fod na ddeunyddiau electronig ar gael allai fod yn fwy addas ar eich cyfer? Mae rhain yn cynnwys posteri, logo, llofnod e-bost a chefnidiroedd rhyngweithiol ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau.

Mae croeso i unrhyw un lawrlwytho'r adnoddau [yma yn rhad ac am ddim](#).

Rydym hefyd yn medru cynnig trwyddedau i sefydliadau allu cynhyrchu nwyddau eu hunain a defnyddio'r brand ar ddeunydd sydd eisoes ar gael i staff.

Enghreifftiau o'r rhain yw brodio'r bathodyn 'Cymraeg' ar wisg neu osod y bathodyn ar gerdyn adnabod staff sy'n siarad Cymraeg.

Mae croeso i chi gysylltu â ni os dymunwch drafod y dulliau hyn ymhellach.



Am fwy o wybodaeth am ein gwaith cofiwch ymweld â'n gwefan: comisiynyddygyymraeg.cymru neu dilynwch ni ar Twitter, Facebook, Instagram a LinkedIn ac os am anfon neges atom y cyfeiriad e-bost yw: cyfathrebu@cyg-wlc.cymru.



Iaith Gwaith – the little badge with a big role

The Iaith Gwaith badge is well established – it can be seen everywhere and is an opportunity for people to show that they can speak Welsh and that others are welcome to speak Welsh with them, whether that be in the shop, in the hospital or in the leisure centre.

The numbers who visit our website and receive badges and lanyards have increased. But did you also know that there are electronic materials available that might be more suitable for your needs? These include posters, the logo, e-mail signature and interactive backgrounds for meetings and events.

Anyone is welcome to download these resources [free of charge](#).

We can also offer licenses for organisations to be able to produce their own merchandise and use the brand on material that is already available to staff.

An example of this is embroidering the logo on uniforms or placing the badge on the identity card of staff who speak Welsh.

Please feel free to contact us if you wish to discuss this further.



For further information about our work please visit our website: welshlanguagecommissioner.wales or follow us on Twitter, Facebook, Instagram and LinkedIn and if you want to get in touch e-mail us on: cyfathrebu@cyg-wlc.wales.





Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner